# Rhestr wirio ar gyfer dod â’ch **ci**, **cath** neu **ffured** anwes yn ôl i **Brydain Fawr** o un o **wledydd** yr UE



**Er mwyn dychwelyd i Brydain Fawr (Cymru, Lloegr a’r Alban) rhaid bod gan eich anifail anwes y canlynol:**

- Microsglodyn darllenadwy
- Brechiad dilys rhag y gynddaredd
- Naill ai: Tystysgrif iechyd anifeiliaid ddilys, NEU basbort anifail anwes a dderbynnir
- Ar gyfer cŵn yn unig – triniaeth ar gyfer llyngyr, a roddwyd gan filfeddyg 24-120 awr cyn cyrraedd Prydain Fawr

Efallai y cewch eich atal rhag teithio gyda’ch anifail anwes os na fydd gennych y paratoadau neu’r ddogfennaeth anifail anwes gywir

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Gweler dros y dudalen am ragor o fanylion

# Er mwyn sicrhau bod eich taith yn ôl i Brydain Fawr yn ddidrafferth ac osgoi oedi wrth y ffin, gwnewch yn siŵr bod gan eich anifail anwes y canlynol:

Siaradwch â'ch milfeddyg lleol am ffyrdd o gadw eich anifail anwes yn ddiogel ac yn iach wrth deithio.
Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am ofynion teithio ar gyfer anifeiliaid anwes, ewch i www.gov.uk/bring-pet-to-great-britain

✔ Microsglodyn darllenadwy.

- Gwnewch yn siŵr eich bod gwybod lleoliad microsglodyn eich anifail anwes, fel y gellir ei ddarllen yn hawdd wrth y ffin.
- Rhaid i ddyddiad mewnosod neu ddarllen y microsglodyn sydd wedi'i gofnodi ar y dystysgrif neu'r pasbort fod ar ddyddiad y brechiad rhag y gynddaredd neu cyn hynny.

✔ Brechiad dilys rhag y gynddaredd.

- Gwnewch yn siŵr bod brechiad eich anifail anwes rhag y gynddaredd yn ddilys ar gyfer cyfnod cyfan eich taith, gan gynnwys eich taith yn ôl i Brydain Fawr.
- Dim ond mewn pasbortau anifeiliaid anwes a roddwyd ym Mhrydain Fawr o dan gyfraith yr UE cyn 1 Ionawr 2021 y gall milfeddygon ym Mhrydain Fawr fewnbynnu manylion brechiadau rhag y gynddaredd.

✔ Tystysgrif iechyd anifeiliaid ddilys neu basbort anifail anwes a dderbynnir*.

- Wrth ddychwelyd i Brydain Fawr, chi sy'n gyfrifol am gadarnhau bod y manylion yn eich dogfennau swyddogol (tystysgrif iechyd neu basbort anifail anwes eich anifail anwes) wedi'u cofnodi'n gywir gan y milfeddyg a'i rhoddodd.
- Dim ond am hyd at bedwar mis o'r dyddiad y'u rhoddwyd gan eich milfeddyg y mae tystysgrifau iechyd anifeiliaid yn ddilys i ddychwelyd i Brydain Fawr.
- Os nad oes gennych dystysgrif iechyd anifeiliaid na phasbort anifail anwes dilys, gallwch ddefnyddio tystysgrif iechyd anifeiliaid anwes a roddwyd ym Mhrydain Fawr.
- Am restr lawn o basbortau anifeiliaid anwes a dderbynnir, gweler gov.uk/bring-pet-to-great-britain/pet-passport.

✔ Ar gyfer cŵn yn unig, triniaeth ddilys ar gyfer llyngyr.

- Rhaid i'r driniaeth hon gael ei rhoi gan filfeddyg. Rhaid i'r driniaeth gael ei rhoi rhwng 24 a 120 awr **cyn** cyrraedd yn ôl ym Mhrydain Fawr a'i **chofnodi yn eich dogfen swyddogol**.
- Ni fydd angen i'ch ci gael triniaeth ar gyfer llyngyr os byddwch yn dod yn uniongyrchol o'r Ffindir, Iwerddon, Gogledd Iwerddon, Malta neu Norwy.
- Teithiau byr: gall triniaeth ar gyfer llyngyr hefyd gael ei rhoi ym Mhrydain Fawr cyn i chi deithio os byddwch yn dychwelyd i Brydain Fawr o fewn pum diwrnod i'r driniaeth.

**Cofiwch:**

- A fyddwch (hefyd) yn ymweld ag unrhyw wledydd y tu allan i'r UE ar eich taith? Mae rheolau gwahanol a dogfennaeth wahanol sy'n ofynnol ar gyfer dychwelyd i Brydain Fawr os byddwch yn dychwelyd o wlad y tu allan i'r UE ('a restrir yn rhan 2') neu wlad 'heb ei rhestru', megis Twrci neu Foroco. Ewch i gov.uk am ragor o wybodaeth.
- Os ydych yn bwriadu mewnforio anifail anwes newydd (gan gynnwys anifeiliaid anwes wedi'u hachub) i Brydain Fawr o dramor rhaid i chi ddilyn rheolau ychwanegol, a elwir yn rheolau Balai. Ewch i gov.uk am ragor o wybodaeth.